Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant
World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being
GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# CYLCHLYTHYR IECHYD RHYNGWLADOL

RHIFYN 4: MEDI 2024

## Fforwm Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru
## 20fed o Dachwedd 2024



Ymunwch â ni ar **20 Tachwedd 2024 rhwng 10:00 a 12:00** ar gyfer **Fforwm Iechyd y Cyhoedd Rhyngwladol cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

Bydd y Fforwm Iechyd Rhyngwladol yn hyrwyddo profiadau cydweithwyr ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymchwil iechyd rhyngwladol ac yn darparu amser i drafod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol i ymgysylltu â gwaith a rhwydweithiau partneriaethau rhyngwladol.

Bydd y gwaith hwn yn galluogi ac yn cefnogi gweithrediad Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**David Warren**
Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru.

**Meng Khaw**
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Sgrinio a Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Arweinydd Pwynt Ffocws Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol (IANPHI).

**Mariana Dyakova**
PMariana Dyakova, Pennaeth Iechyd Rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac Arweinydd Strategol ar gyfer yr Economi Llesiant.

**Giri Shankar**
Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyd-Gadeirydd Grŵp Diddordeb Arbennig India Cyfadran Iechyd y Cyhoedd (FPH).

**Cliciwch am fwy**

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno eich gwaith neu os oes gennych bwnc trafod, cysylltwch â laura.holt@wales.nhs.uk

## Pecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

Mae Pecyn Cymorth wedi'i ddiweddaru bellach ar gael i staff sydd â diddordeb mewn partneriaethau rhyngwladol.

Mae’r pecyn cymorth gweithredu yn helpu staff mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau’r GIG i drosi’r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru yn arferion gweithredol, gan sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd y GIG yn cael eu hadlewyrchu ym mhob gweithgaredd iechyd rhyngwladol. Mae rhoi’r Siarter ar waith hefyd yn cyd-fynd â’r camau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae’r pecyn cymorth wedi’i ddatblygu a’i adnewyddu o wersi a ddysgwyd, gan gasglu enghreifftiau o arfer gorau a darparu fframwaith llywodraethu cefnogi gweithgaredd iechyd rhyngwladol.

Mae’r pecyn cymorth hwn yn darparu deunyddiau gwerthfawr fel:

- Arweiniad
- Astudiaethau achos
- Dogfennau gweithredu
- Adnoddau defnyddiol...a llawer mwy.

Fel adnodd byw ar y we, bydd y pecyn cymorth hwn yn parhau i gael ei addasu.

**Pwy oedd yn rhan o greu’r pecyn cymorth?**
Mae partneriaid sy’n ymwneud â Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol GIG Cymru, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r holl Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau yng Nghymru, a rhanddeiliaid allweddol, yn cyfrannu’n barhaus at y pecyn cymorth. Cafodd ein timau yng Nghanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gydnabyddiaeth ysgrifenedig hefyd am eu cyfraniadau.



## Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru, Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (HIA)




Gwahoddwyd Liz Green, Cyfarwyddwr Rhaglen HIA, Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gyflwyno sesiwn Holi ac Ateb Cyffredinol yr HIA ar newid hinsawdd yng Nghymru.

Roedd hyn fel rhan o gyfres gweminar a sesiwn dosbarth meistr a drefnwyd gan GIG Seland Newydd. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys llawer o lywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol (unedau datblygu cynaliadwy, arweinwyr newid yn yr hinsawdd, iechyd a’r amgylchedd) a

Gwasanaeth Iechyd Gwladol Seland Newydd. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol am y gwaith a’i effaith hyd yma a sut mae’n ychwanegu at ffocws ar lesiant a gwendid.

---

## Galwad am Enwebeion ar gyfer Gwobr Iechyd

Cais rhyngwladol am enwebiadau - Gwobr Iechyd Byd-eang John Dirks Canada Gairdner - ymchwil wyddonol sydd wedi gwella iechyd a llesiant y rhai sy'n wynebu anghydraddoldebau iechyd ledled y byd.

Cenhadaeth Sefydliad Gairdner yw dathlu, hysbysu ac ysbrydoli rhagoriaeth wyddonol ledled y byd. Sefydlwyd Sefydliad Gairdner ym 1957. Y prif nod yw cydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth ryngwladol mewn ymchwil sylfaenol sy'n effeithio ar iechyd dynol.

Enillodd yr Athro Gagandeep Kang, o Goleg Meddygol Cristnogol, Velore, De India, wobr 2024. Mae ei gwaith wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygu brechlynnau a pholisi iechyd yn India ac yn rhyngwladol.




Gwahoddir enwebiadau ar gyfer gwobrau 2025 o unrhyw faes ymchwil sy'n effeithio ar iechyd byd-eang ac annhegwch iechyd.

Mae'r dyfarniad wedi'i fwriadu ar gyfer ymgeiswyr sy'n canolbwyntio ar ymchwil. Disgwylir enwebiadau erbyn 11:59pm PDT ar 1 Hydref, 2024.

Cyhoeddir y derbynwyr ym mis Mawrth/Ebrill 2025, a'u cyflwyno ym mis Hydref 2025.

**Cliciwch am fwy (Saesneg yn unig)**

# Comisiwn Bevan Commission

Mae Comisiwn Bevan wedi cyhoeddi canfyddiadau Cam Un o Sgwrsio â'r Cyhoedd.

Mewn cydweithrediad â Byrddau Iechyd GIG Cymru, Ymddiriedolaethau a Llais, roedd y darn hwn o waith yn cynnwys dinasyddion ledled Cymru mewn sgyrsiau am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Trwy saith digwyddiad 'neuadd y dref' ym mhob ardal Bwrdd Iechyd GIG Cymru, digwyddiad ar-lein cenedlaethol ac arolwg, llwyddodd y prosiect i gasglu mewnwelediadau a safbwyntiau dros ddwy fil o aelodau'r cyhoedd.

Mae Comisiwn Bevan hefyd wedi cyhoeddi papur ar Werthoedd a Gwerth y Trydydd Sector.

Mae'r papur hwn yn archwilio cryfderau a chyfraniadau unigryw sefydliadau'r trydydd sector, gan amlygu eu hystwythder, eu cadernid, a'u cysylltiadau cymunedol dwfn. Drwy ddatblygu mwy o gydweithio â gwasanaethau statudol, gall y trydydd sector ysgogi gwelliannau sylweddol mewn iechyd a llesiant ledled Cymru.

Darganfyddwch sut y gall y bartneriaeth hon arwain at atebion arloesol, ymyriadau cynnar, a dull mwy integredig o ddarparu gofal iechyd.




**Saesneg yn unig**

## CYFADRAN IECHYD Y CYHOEDD

Cyfadran Iechyd y Cyhoedd Os byddwch yn dod yn aelod o Gyfadran Iechyd y Cyhoedd (FPH), rydych yn gymwys i ymuno â Grŵp Diddordeb Arbenigol (SIG) a gynullwyd i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf dybryd sy'n wynebu iechyd y cyhoedd heddiw ac i roi platfform i aelodau FPH siarad mewn un llais ar bwnc penodol.

Mae SIGs yn galluogi aelodau o bob rhan o'r DU ac yn fyd-eang i rwydweithio â gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd eraill sy'n gweithio yn eu maes a darparu ffynhonnell amhrisiadwy o arbenigedd a chymorth i FPH.

FACULTY OF PUBLIC HEALTH

**Saesneg yn unig**

# 30 Mlynedd o Nod Masnach Deg

Cymerwch ran mewn llu o ddigwyddiadau yn 2024 i ddathlu’r Nod Masnach Deg. Mae’r eicon radical hwn sy’n chwalu tlodi yn troi’n ddeg ar hugain eleni.

Mae'r Nod Masnach Deg yn gwarantu bod pris teg wedi'i dalu am y cynnyrch yn y man cychwyn; a bod cyflogau derbyniol yn cael eu rhoi i bawb ar hyd y broses gwerthu.

**Saesneg yn unig**

## Dewch â Thlodi i Ben Nawr

Mudiad a oedd yn ymateb i gyflwr enbyd ffermwyr coffi ym Mecsico oedd Masnach Deg.

Yn yr 1980au, cwympodd pris ffa coco. Manteisiodd corfforaethau mawr iawn ar gyfnod tawel byr yn y farchnad. ICadwodd hynny prisiau yn anghynaliadwy o isel. O ganlyniad i hynny, aeth y rhai a oedd ymwneud â'r diwydiant ar lawr gwlad i dlodi.

Roedd Masnach Deg yn rhoi'r dewis i ddefnyddwyr dalu ychydig yn ychwanegol am eu siocled a'u coffi, gan wybod nad oeddent yn cyfrannu at newyn, pennu prisiau, cam-drin hawliau dynol a llafur caethweision.

Manteisiodd y ffermwyr ar y cynnig newydd, gan werthu eu cnydau gorau i'r rhai a dalodd y pris gorau. Tyfodd y fenter Masnach Deg o wlad i wlad ac ar draws y byd

## Deng Mlynedd ar Hugain yn Ddiweddarach

Ym 1992, ffurfiwyd y Sefydliad Masnach Deg ym Mhrydain, sy’n rhan o'r mudiad ehangach. Cymerodd ychydig o flynyddoedd i gynhyrchion ymddangos.

Bar siocled blaenllaw Green & Black, Maya Gold, wedi'i wneud â ffa coco o Belize, oedd y cyntaf i gario'r nod Masnach Deg chwedlonol. Ymunodd Clipper Tea a rhai brandiau coffi – Percol a CafeDirect â’r mudiad yn gyflym.

Ymddangosodd pob un mewn siopau ym Mhrydain o fis Medi 1994.

Cadwch lygad am ddigwyddiadau lleol sy'n dathlu'r gamp epig hon a'r pen-blwydd arbennig hwn.

# Digwyddiadau a Chynadleddau i Ddod

**Gweminarau IANPHI (Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol)**
**Datblygu Rhwydweithiau Effeithiol: Strategaethau ar gyfer Mapio Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid mewn Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol (NPHIs).**

Mae IANPHI yn cynnal gweminarau sy'n caniatáu i sefydliadau iechyd y cyhoedd cenedlaethol sy'n aelodau i drafod materion iechyd byd-eang brys gyda sefydliadau cymheiriaid a phartneriaid. Dewisir pynciau gan aelodau oherwydd eu perthnasedd i Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol eraill a'r gymuned iechyd fyd-eang ehangach.

Cliciwch am fwy

Saesneg un unig

---

**Wythnos Dysgu Dwys Comisiwn Bevan**

Abertawe, Cymru | 14 - 18 Hydref 2024

Rhaglen i'r rhai ym maes iechyd a gofal weithio gyda phobl sy'n frwd dros wneud gwahaniaeth a datblygu datrysiadau arloesol i heriau'r presennol a heriau sy'n dod i'r amlwg.

Cliciwch am fwy

Saesneg yn unig

---

**74ain sesiwn o Bwyllgor Rhanbarthol WHO ar gyfer Ewrop**

Copenhagen, Denmarc I 29-31 Hydref 2024

Bydd gweinidogion iechyd a chynrychiolwyr lefel uchel o 53 Aelod-wladwriaethau Rhanbarth Ewropeaidd WHO, yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau partner a chymdeithas sifil, yn cyfarfod yn Copenhagen, Denmarc, ar 29-31 Hydref 2024 ar gyfer 74ain sesiwn WHO Regional Committee for Europe (RC74).

Cliciwch am fwy

Saesneg un unig

---

**Cynhadledd Flynyddol THET (Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol) 2024: Cryfhau gweithredu ar y cyd ar iechyd byd-eang.**

Ar-lein | Tachwedd 6 - 7 2024

Mae Cynhadledd Flynyddol THET yn ddigwyddiad iechyd byd-eang mawr. Bydd yn dwyn ynghyd y gymuned Partneriaethau Iechyd ac yn cynnwys penderfynwyr lefel uchel ac arbenigwyr ac arweinwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol, i ddod o hyd i ddatrysiadau a rhannu profiadau i hyrwyddo cwmpas iechyd cyffredinol.

**Cliciwch am fwy** Saesneg un unig

---

**17eg Cynhadledd Ewropeaidd ar Iechyd y Cyhoedd 2024**

Lisbon, Portiwgal | 13 - 15 Tachwedd 2024

Bydd gweinidogion iechyd a chynrychiolwyr lefel uchel o 53 Aelod-wladwriaethau Rhanbarth Ewropeaidd WHO, yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau partner a chymdeithas sifil, yn cyfarfod yn Copenhagen, Denmarc, ar 29-31 Hydref 2024 ar gyfer 74ain sesiwn WHO Regional Committee for Europe (RC74).

**Cliciwch am fwy** Saesneg un unig

---

**Bydd 29ain cyfarfod blynyddol Rhwydwaith Rhanbarthau Ewropeaidd ar gyfer Iechyd WHO**

Trieste, Yr Eidal | 27 - 29 Tachwedd 2024

**Cliciwch am fwy** Saesneg un unig

---

## Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar ddod, anfonwch e-bost at:**

**Laura.holt@wales.nhs.uk**

**Joanne.Harrington2@wales.nhs.uk**